Munud i Feddwl

Coed yr Ardd

Y ffurfafen oedd las, yr hin oedd deg – gosodwyd dyn i ddechrau byw, yn ôl awdur Genesis, mewn gardd – gardd o drefniant Duw. Caed ynddi goed defnyddiol a dymunol, ac yn eu plith yn tyfu Pren y Bywyd a Phren Gwybodaeth Da a Drwg.

Ymguddiodd Adda ac Efa o olwg Duw ymysg coed yr ardd (Genesis 3:18; llun *Adam and Eve hider their Nakedness* gan Ruth Collet (1909 – 2001)). Mae yna dristwch yn perthyn i'r adnod hon – tristwch yn tarddu, nid dim ond o'r ffaith iddynt deimlo'r awydd i guddio, ond eu bod wedi dewis cuddio ymysg Coed yr Ardd. Cynnyrch Duw oedd Coed yr Ardd, ei rodd iddynt, a dyma'r ddau hyn - ti a minnau - yn eu defnyddio i guddio rhagddo!



Myn y Beibl fod Duw yn cuddio rhag ei bobl. 'Roeddwn wedi arfer meddwl fod Duw yn cuddio rhagom oherwydd ein drygioni: *"...ond eich camwedd chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw, a'ch anwiredd chwi a barodd iddo guddio'i wyneb rhag gwrando arnoch"* (Eseia 59:2). Bellach, 'rwy'n credu fod Duw yn cuddio rhagom oherwydd ein bod yn dewis ymwneud â'r da mewn ffordd mor ddrwg, mewn ffordd sy'n gwthio Duw oddi wrthym.

Onid, dyna ergyd Dameg y Wledd Fawr (Luc 14:15-24; llun – Y Wledd Fawr. Ffenestr lliw yn Eglwys Goffa Lwtheraidd Ames, Iowa, UDA)? Wrth ddarllen, gwelwn mai, ynddynt eu hunain, pethau da a gadwodd y gwahoddedigion o'r wledd – prynu darn o dir, profi ychen newydd a phriodi. Nid oedd dim yn ddrwg am yr un o'r pethau hyn. Yn wir, pethau da oeddent; ond 'roedd defnyddio'r pethau da hyn mewn ffordd ddrwg yn ddigon i'w cadw bob un o'r Wledd fwyaf un!

Credaf fod Duw o hyd yn plannu gerddi i'w bobl, ac yn eu cyfoethogi â choed defnyddiol a dymunol. Yn eu plith mae Pren y Bywyd a Phren Gwybodaeth Da a Drwg. Mynnwn ninnau ... o hyd fyth ... ddefnyddio ei roddion i ni er mwyn cuddio rhagddo.

Sut bynnag a ddarllenwn Stori Adda ac Efa – yn llythrennol, neu fel arall – rhaid cydnabod a chyhoeddi nad yw gwers y stori – mwynhau gardd Duw, heb droi cefn ar Arglwydd yr Ardd – wedi ei dysgu o gwbl.

Yr Adfent hwn, mynnwn y cyfle i ddod allan o fysg y coed. Cyfnod yw hwn i gydnabod mai Duw sydd biau ni, ac mae *"ar ei drugareddau/yr ydym oll yn byw"* (Elfed 1860 - 1953; C.Ff. 130). *OLlE*

7 Rhagfyr 2011